Centre for Environment Fisheries & Aquaculture Science

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Sectorau Dyframaeth (presennol ac sy’n datblygu)

Mae dyframaeth wedi datblygu i fod yn weithgareddau a thechnegau amrywiol, mewn dŵr croyw ac yn y môr, ac sy'n cynnwys llawer o rywogaethau o bysgod esgyll, pysgod cregyn, cramenogion, planhigion y dŵr a gwymon. Mae’r gwahanol leoliadau, technegau, rhywogaethau a ffyrdd o fwydo i gyd yn dylanwadu ar y math o reoleiddo sydd ei angen. Ystyrir fod rhai mentrau’n gaeedig ac yn ddiogel ac eraill yn agored i’r amgylchedd. Telir sylw cynyddol i gyfuniadau o rywogaethau a systemau am resymau amgylcheddol. Er mwyn helpu’r diwydiant dyframaeth sy’n datblygu i ddeall ei fframwaith reolaethol, mae’r gofynion rheolaethol wedi’u rhannu i’r sectorau dyframaeth dilynol.

| **Rhywogaethau Nodweddiadol** | **Math o Amaeth** | | **Amgylchedd** |
|---|---|---|---|
| Cerrig Gleision, Cregyn Bylchog, Wystrys, Cregyn Berffro. | Dyframaeth Pysgod Cregy | Morol | Ar y gwaelod (trestlau neu wedi amaethu ar y ddaear) |
| Cerrig Gleision, Cregyn Bylchog, Wystrys. | | | Oddi ar y gwaelod (Rhaffau hir neu rafft) |
| Cimychiaid | Amaeth Caets Cramenogion | | Morol |
| Gwymon | Amaeth algâu macro | | Morol |
| Eog, Brithyll, Draenog y Môr, Gwrachen Ddu ayb. | Pysgod esgyll mewn llociau rhwydi agored a chaetsys o dan y dŵr. | | Morol |
| Cyfuniad o rywogaethau morol yn bysgod esgyll, Pysgod cregyn, algâu macro a Chramenogion. | Dyframaeth Aml-Droffig Cyfun (IMTA) | | Morol |
| Pysgod esgyll, Eogiaid, gleisiaid, Draenogod y Môr. | Pwmpio llif i’r lan trwy ffermydd pysgod esgyll | | Morol (ar y tir) |
| Wystrys, Cregyn Berffro, Cregyn Bylchog, Clust Fôr. | Dyframaeth Pysgod Cregyn | Morol (ar y tir) | Deorfeydd |
| Clust Fôr, Cregyn Bylchog | | | Pysgod cregyn pwmpio ar y lan |
| Draenogod y Môr, Lledod, Eogiaid, Gorgimychiaid. | System Dyframaeth Ailgylchdrol (RAS) | | Morol (ar y tir) |
| Gwymon | Amaeth Algâu-macro | | Morol (ar y tir) |
| Cerrig Gleision, Cregyn Bylchog, Wystrys. | Canolfan Buro Pysgod Cregyn | | Morol (ar y tir) |
| Brithyll ac Eogiaid. Cyprinidau a rhywogaethau bras. | Ffermydd Pysgod Esgyll Llifo Trwodd a Llonydd | | Dŵr croyw |

| | | |
|---|---|---|
| Cyprinidau, Tilapia, Penhwyaid draenogyn, Baramwndi, Cramenogion | System Dyframaeth Ailgylchdrol (RAS) Llwyr Gaeedig | Dŵr croyw |
| Cyfuniadau o rywogaethau pysgod esgyll dŵr croyw, planhigion dyfrol neu sy'n caru'r dŵr a Chramenogion. | Fferm Acwaponeg | Dŵr croyw |